



**Academi Genedlaethol ar gyfer
Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for
Educational Leadership Wales**

**Cofnodion/Nodiadau Gweithredu o Gyfarfod y Bwrdd, 20 Tachwedd 2020 trwy
Teams**

Yn bresennol: Sue Davies (SD) (Cadeirydd)
Tegwen Ellis (TE) (Prif Weithredwr)
Kirsty Payne (KP) (Ysgrifenyddiaeth)
Claire Williams (CW)
Mike James (MJ)
John Graystone (JG)
Martin Price (AS)
Davina Payne (DP)
Rosemary Jones OBE (RJ)
Paul Marshall (PM)
Michaela Renkes (MR) (Sylwedydd Llywodraeth Cymru)

1. Croeso, cadarnhau cofnodion a champau gweithredu'r cyfarfod blaenorol

Croesawodd SD bawb i'r cyfarfod. Cofrestrodd RJ achos o wrthdaro buddiannau posibl gan ei bod yn aelod o banel annibynnol i asesiadau yn 2020. Diolchodd SD i RJ, gan ddweud y bydd ei chyfraniad yn werthfawr. Ni chofrestrwyd unrhyw wrthdaro buddiannau eraill.

Dywedodd SD wrth y Bwrdd fod KP yn disgwyl babi ym mis Ebrill 2021 a bod cynllun senarios wedi dechrau cwmpasu ei chyfnod o absenoldeb mamolaeth. Bydd cynllun ffurfiol yn cael ei gyflwyno i'r bwrdd ym mis Ionawr 2021.

Aeth SD drwy'r cofnod gweithredu:

- Cam Gweithredu 83 – Y wybodaeth ddiweddaraf am agenda'r cyfarfod hwn
- Cam Gweithredu 105 – Mae TE yn hapus i roi hwn ar yr agenda ar gyfer mis Ionawr
- Cam Gweithredu 115 – Gellir ei ddileu gan mai gweithred reoli wedi'i neilltuo i TE yw hon
- Cam Gweithredu 134 – Gohiriwyd y gweddill. Argymhellodd RJ fod aelodau'r bwrdd yn darllen 'Taith i 2022' i ddeall mwy am weithredu'r cwricwlwm newydd. Bydd RJ yn rhannu'r ddolen.
- Cam Gweithredu 143 – Wedi'i gwblhau
- Cam Gweithredu 144 – Gohiriwyd y gweddill
- Cam Gweithredu 145 – Y wybodaeth ddiweddaraf am agenda'r cyfarfod hwn

- Cam Gweithredu 146 – Awgrymodd SD y dylid sefydlu grŵp Gorchwyl a Gorffen i ddatblygu hyn. Gofynnodd MJ pryd y gellid gwneud sylwadau, ac esboniodd SD fod y papur eisoes wedi'i ddsbarthu ar gyfer sylwadau cyn y cyfarfod gan JG. Bydd MJ yn anfon ei sylwadau at JG ar ôl y cyfarfod. Gofynnodd SD am wirfoddolwyr ar gyfer y grŵp Gorchwyl a Gorffen. Cynigiodd RJ a PM ymuno â SD a JG ar y grŵp. Bydd KP yn trefnu cyfarfod. Atgoffodd MR y bwrdd fod meysydd penodol o berfformiad bwrdd sy'n rhaid eu mesur i gydymffurfio â'r Uned Cyrff Cyhoeddus.

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir gydag un eithriad. Gofynnodd CW i ni newid ei sylw ar dudalen 4 ynglŷn â Llywodraeth Cymru yn cael effaith uniongyrchol ar les penaethiaid gan nad yw'n adlewyrchu'r sgwrs a gynhaliwyd. Hoffai CW i'r sylw ddweud 'the Leadership Academy should work in the interest of headteachers, and feedback issues to Welsh Government regarding well-being'.

Bydd yn gwneud y gwelliant.

2. Diweddariad ar Ailwampio'r Bwrdd

Diolchodd SD i MR am ddod i'r cyfarfod a gofynnodd iddi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ailwampio'r Bwrdd.

Cadarnhaodd MR fod yr ymateb i'r cynnig cychwynnol a gyflwynwyd i'r Gweinidog Addysg wedi'i ohirio oherwydd yr amgylchiadau presennol. Felly, mae'r Gweinidog wedi cytuno i ymestyn holl delerau aelodau'r bwrdd am 12 mis arall (tan 31 Mawrth 2022). Bydd rhaglen dreigl o ailwampio yn cael ei rhoi ar waith o 1 Ebrill 2022 ymlaen. Dylai SD ddisgwyl llythyr yn cadarnhau hyn. Diolchodd SD i MR am y diweddariad.

3. Adroddiad y Pwyllgor Cyllid / Adnoddau Dynol

Cyflwynodd JG yr adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Cyllid / Adnoddau Dynol ar 20 Hydref 2020.

Cyflwynwyd adroddiad gwariant chwarter 2 i'r pwyllgor. Roedd rhywfaint o orwariant yn y gyllideb a wrthbwyswyd gan danwariant mewn meysydd eraill, ac nid oedd unrhyw amrywiannau sylweddol. Sicrhawyd sefyllfa ariannol yr Academi Arweinyddiaeth i'r pwyllgor.

Cafodd y pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf gan y Prif Weithredwr a fydd yn cael ei rhannu yn ystod ei hadroddiad yn ddiweddarach yn y cyfarfod.

Cynhaliwyd trafodaeth ddiddorol am arholiadau ac asesu athrawon. Mae TE yn teimlo bod yr Academi Arweinyddiaeth wedi dod o hyd i'w niche wrth ddod ag arweinwyr o bob cwr o Gymru at ei gilydd drwy'r gyfres weminar ar-lein. Cytunodd y pwyllgor fod unrhyw gymorth y gellir ei roi i arweinwyr ar yr adeg anodd hon yn werthfawr dros ben.

Mae'r pwyllgor yn falch gyda phenodiad Mark Isherwood yn Gyfarwyddwr Cynorthwyol dros Ddatblygu Arweinyddiaeth a Sicrhau Ansawdd.

Trafodwyd swyddfa Abertawe ac a oes ei hangen wrth symud ymlaen. Gwerthfawrogwn drafodaeth bellach ar hyn yn y cyfarfod nesaf.

Bu'r pwyllgor yn adolygu'r polisi dileu swydd a grëwyd gan y tîm gweithredol ar y cyd â'r mentoriaid Adnoddau Dynol. Cytunwyd ar rai gwelliannau **a bydd y pwyllgor yn ei gyflwyno i'r bwrdd i'w gymeradwyo yn y cyfarfod nesaf**. Atgoffodd MR y bwrdd fod yn rhaid i'r polisi ymgorffori cyfyngiadau Taliad Ymadael y Sector Cyhoeddus.

4. Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Cyflwynodd PM yr adroddiad o gyfarfod y pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar 22 Hydref 2020.

Adolygodd y pwyllgor bolisi Gwrth Dwyll drafft, a grëwyd gan y tîm gweithredol. Cytunwyd ar rai gwelliannau **a bydd y pwyllgor yn ei gyflwyno i'r bwrdd i'w gymeradwyo yn y cyfarfod nesaf**.

Cytunodd y pwyllgor a'r tîm gweithredol nad oedd y gofrestr risg bresennol bellach yn adlewyrchu'r risgiau strategol allweddol sy'n wynebu'r busnes. Gofynnodd y pwyllgor i'r tîm gweithredol ailddrafftio'r gofrestr risg yng nghyd-destun y cynllun corfforaethol, a chyflwynwyd fersiwn wedi'i diweddarau i'r pwyllgor yn ystod y cyfarfod. Nodwyd meysydd blaenoriaeth o'r cynllun corfforaethol ac roedd y 10 prif risg wedi'u cynnwys ar y gofrestr risg newydd. Ystyriwyd yr holl risgiau hefyd yng nghyd-destun COVID-19.

Cyflwynodd TE y gofrestr risg ddiweddaraf i'r bwrdd, gan godi pryderon y tîm gweithredol ynglŷn â'r ffordd y caiff cyllid ei dynnu i lawr o Lywodraeth Cymru. Gofynnodd TE i MR a oedd unrhyw beth y gellir ei wneud i leddfu'r pwysau mae'r dull presennol yn ei roi ar y staff, ac a yw sefydliadau haen ganol eraill yn hawlio eu cyllid yn yr un ffordd. Cadarnhaodd MR fod pob sefydliad haen ganol yn cael ei dalu bob chwarter a bod sefydliadau eraill yn cael eu talu mewn ôl-ddyledion sy'n cynyddu'r baich. Rhoddwyd caniatâd arbennig i'r Academi Arweinyddiaeth dynnu eu cyllid i lawr ymlaen llaw.

Mae PM yn credu bod y gwaith sy'n cael ei wneud gan y tîm yn glir o'r gofrestr risg ac mae'r pwyllgor yn hyderus bod baich y risg yn cael ei rannu'n briodol ymhlith y tîm gweithredol.

Gofynnodd JG a ddylid cynnwys newid Gweinidog Addysg yn dilyn yr etholiad ym mis Mai fel risg, gan fod y Gweinidog presennol yn gefnogwr brwd i'r Academi Arweinyddiaeth. Cytunodd MR a TE y bydd yn hanfodol yn ystod y misoedd nesaf i brofi gwerth yr Academi Arweinyddiaeth i ddarpar Weinidogion y dyfodol.

Gofynnodd DP a fydd absenoldeb mamolaeth KP yn cael effaith ar welededd. Nid yw TE yn credu y bydd. Bydd y wefan newydd ar waith cyn bod cyfnod absenoldeb KP yn dechrau, ac mae'r broses o gynhyrchu fideos hyrwyddo eisoes ar y gweill.

Diolchodd SD i PM ac mae'n falch nad yw'r gofrestr risg bellach yn nwylo'r Prif Weithredwr yn unig, a bod y cyfrifoldeb bellach yn cael ei rannu ag aelodau eraill o'r tîm gweithredol. **Penderfynodd y Bwrdd gymeradwyo'r gofrestr risg ddiwygiedig.**

5. Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad yn erbyn diweddariad y Cynllun Corfforaethol a'r Strategaeth Llesiant

Cyflwynodd TE adroddiad ei Phrif Weithredwr yn erbyn y cynllun corfforaethol, gan ymgorffori diweddariad ar y strategaeth Llesiant.

Dywedodd MR ei bod yn teimlo bod yr amserlen ar gyfer yr alwad gyfredol am gymeradwyaeth yn rhy hir ac mae wedi trafod hyn gyda TE yn fanylach y tu allan i'r cyfarfod hwn.

Hefyd, tynnodd MR sylw at y perygl o ddyblygu o ran mentrau Llesiant yr Academi Arweinyddiaeth, a dywedodd fod Llywodraeth Cymru wrthi'n gweithio ar gyflwyno'r cynnig Llesiant ehangach i'r system. Mae SD yn credu y gallai fod cyfle i'r Academi Arweinyddiaeth nodi unrhyw fylchau i Lywodraeth Cymru.

Mae'r gwaith o baratoi cyllideb 2021/22 wedi dechrau ac mae'r tîm gweithredol yn bwriadu cyflwyno drafft i'r pwyllgor Cyllid ac Adnoddau Dynol ym mis Ionawr. Cadarnhaodd MR nad oes unrhyw doriadau yn y gyllideb wedi'u cyflwyno ar gyfer y flwyddyn i ddod, ond na fydd y grant yn cael ei gadarnhau tan fis Rhagfyr ar y cynharaf. Mae'n bwysig cofio am y posibilrwydd o dorri'r gyllideb eleni.

Holodd DP am adran newyddion y wefan, a'r faith nad yw wedi'i diweddarau ers mis Ebrill. Awgrymodd DP y dylid postio datganiad i'r wasg er mwyn diweddarau'r adran. Bydd KP yn ymchwilio i hyn gyda Charlotte Thomas.

Mae CW yn falch o weld bod y gyfres Datgloi Arweinyddiaeth yn cael ei hymestyn y tu hwnt i'r cymdeithion. Roedd RJ yn cytuno, ac o'r farn bod yr Academi Arweinyddiaeth yn fwy cynhwysol a hygyrch oherwydd digwyddiadau ar-lein fel y rhain.

Mae MR yn hoffi fformat newydd yr adroddiad ond gofynnodd a ddylai'r Academi Arweinyddiaeth fod yn fwy hunan-feirniadol wrth adrodd. Awgrymodd MR fod colofn yn cael ei hychwanegu i'r adroddiad i ddangos lle mae angen gwaith ychwanegol. Cadarnhaodd TE ei bod yn hapus i wneud y newid hwn. Cytunodd RJ fod y fformat newydd yn glir a hawdd ei ddeall.

Gofynnodd y pwyllgor a ellid egluro'r ystadegau cyfathrebu ymhellach i helpu'r bwrdd i ddeall eu perthnasedd. Bydd TE yn cysylltu â Charlotte Thomas cyn y cyfarfod nesaf.

6. Y Cynllun Corfforaethol Diwygiedig

Cyflwynodd TE ddrafft diwygiedig y cynllun corfforaethol yn dilyn adborth y cyfarfod blaenorol. Gofynnodd SD a oedd unrhyw sylwadau pellach cyn y gellir ei gymeradwyo.

Awgrymodd JG fod y diben, y weledigaeth a'r egwyddorion yn cael eu hadolygu'n flynyddol a bod cynnydd yn cael ei adrodd a'i gofnodi.

Gofynnodd MR i'r derminoleg gael ei gwirio a'i chywiro mewn manau. Mae angen defnyddio teitl llawn yr Academi Arweinyddiaeth o fewn y diben. Mae angen cyfeirio hefyd at y diweddariad i *Cenhadaeth ein Cenedl*, ac mae angen newid teitl yr amcan galluogi i *Arweinyddiaeth*. Hefyd, awgrymodd MR fod angen ailedrych ar y llinell amser yn y model rhesymeg, gan fod y nod cymeradwyo tymor byr eisoes wedi'i gyflawni'n rhannol. Diolchodd TE i'r Bwrdd am eu sylwadau a byddant yn ystyried y cwbl yn y drafft terfynol. **Bydd y fersiwn derfynol yn cael ei dosbarthu i'r bwrdd yn electronig ar ôl ei chwblhau.**

7. Diweddariad Cydymaith – Cohort 1

Ymunodd Mark Isherwood a Clive Williams â'r cyfarfod. Rhoddodd Clive gyflwyniad i'r bwrdd am ei brofiad fel aelod o'r cohort cyntaf o Gymdeithion.

Diolchodd SD i Clive am ei gyflwyniad, ac roedd yn falch iawn o ddeall bod ei brofiad yn yr Academi Arweinyddiaeth wedi golygu ei fod a flaen y gad gyda'i ddysgu. Roedd y cyflwyniad hefyd yn nodi rhai cyfyngiadau i'w hystyried fel bwrdd.

Diolchodd MJ i Clive am gyflwyniad gwych a gofynnodd iddo sut roedd yn teimlo ei fod yn gweithio fel arweinydd system. Mae Clive yn credu bod meithrin diwylliant o arweinyddiaeth ar y cyd yn bwysig iawn ac ategwyd hyn yn ystod ei daith i'r Ffindir fel rhan o ymweliad rhyngwladol Cohort 1.

Gofynnodd JG pa gyngor fyddai Clive yn ei roi i Gymdeithion y dyfodol.

Mae Clive yn credu ei bod yn hanfodol bod yn driv i chi'ch hun a hyrwyddo'r hyn sy'n bwysig i chi. Mae'n hollbwysig bod gwaith yr Academi Arweinyddiaeth yn cynrychioli Cymru gyfan. Dylent hefyd fod yn barod i gael eu herio a bod yn barod i ddysgu. Mae'n bwysig ymgolli yn y profiad.

Diolchodd SD i Clive a Mark am eu cyfraniad. Gadawodd Clive Williams a Mark Isherwood y cyfarfod.

8. Dyddiad y cyfarfod nesaf, eitemau'r agenda yn y dyfodol a chau'r cyfarfod

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 21 Ionawr.

Bydd SD yn anfon dyddiadau at KP ar gyfer y grŵp gorchwyl a gorffen a bydd KP yn sefydlu cyfarfod Teams i bawb sy'n cymryd rhan.

Atgoffodd SD aelodau'r bwrdd o'r cyfarfod Nadoligaidd i gwrdd â'r aelodau newydd o staff a secondeion ar 17 Rhagfyr am 2:30pm.

Diolchodd SD i'r holl aelodau a'r staff am eu cyfraniad, a daeth y cyfarfod i ben am 12:25

Cofnod o'r Camau

| Rhif. | | Perchennog | Dyddiad cau | Statws |
|-------|--|-----------------|---------------|-----------|
| 83 | Gwirio'r broses penodiadau cyhoeddus ar gyfer aelodau'r bwrdd yn y dyfodol | SD | Medi 2019 | Cwblhawyd |
| 105 | Agenda - Tegwen Ellis i fynychu cyfarfod bwrdd y dyfodol i gyflwyno ei gwaith Doethuriaeth hyd yma | KP | Ionawr 2021 | |
| 115 | Creu ail gofrestr risg ar gyfer risgiau gweithredol | Pwyllgor A & RA | Ionawr 2020 | Dileu |
| 134 | Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru i fynychu'r cyfarfod nesaf i drafod y cwricwlwm newydd | TW/CW | Medi 2020 | Gohiriwyd |
| 143 | Ystyried strategaeth ar gyfer ymgysylltu â Gweinidogion cyn yr etholiad | TE | Medi 2020 | Cwblhawyd |
| 144 | Archwilio'r posibilrwydd o gynnal digwyddiad yn y Senedd i lansio strategaeth llesiant | TE/KP | Medi 2020 | Gohiriwyd |
| 145 | Y wybodaeth ddiweddaraf am ailwampio'r Bwrdd i Lywodraeth Cymru | SD | 1 Awst 2020 | Cwblhawyd |
| 146 | Cymryd sylwadau ar fesurau Perfformiad y Bwrdd ac adrodd yn ôl i'r bwrdd | JG | Tachwedd 2020 | Cwblhawyd |
| 148 | Anfon sylwadau ar gylch gorchwyl cyn y cyfarfod nesaf i'r cadeirydd | Pawb | Medi 2020 | Cwblhawyd |
| 149 | Llofnodi'r gyllideb ddiwygiedig ar ôl dosbarthu'r ddogfen | Pawb | Tachwedd 2020 | Cwblhawyd |
| 150 | Dosbarthu dyddiadau newydd ar gyfer cyfarfod bwrdd mis Tachwedd | KP | Medi 2020 | Cwblhawyd |
| 151 | Cadarnhau dyddiad cyfarfod anghyffredin y bwrdd ym mis Medi | KP | Medi 2020 | Cwblhawyd |

| | | | | |
|-----|--|-------|---------------|-----------|
| 152 | Gwneud diwygiadau i'r cylch gorchwyl | KP | Tachwedd 2020 | Cwblhawyd |
| 153 | Adolygiad blynyddol o'r cylch gorchwyl | Pawb | Medi 2021 | |
| 154 | Diwygio cofnodion y cyfarfod blaenorol | KP | Tachwedd 2020 | Cwblhawyd |
| 155 | Cyflwyno Polisi Dileu Swydd i'w gymeradwyo | JG/KP | Ionawr 2021 | |
| 156 | Cyflwyno Polisi Gwrth Dwyll i'w gymeradwyo | PM/KP | Ionawr 2021 | |
| 157 | Dosbarthu fersiwn derfynol y Cynllun Corfforaethol unwaith y bydd wedi'i gwblhau | KP | Rhagfyr 2020 | Cwblhawyd |